ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun pontio cynradd–uwchradd

## Gwybodaeth i unigolion

# Nod y cynllun

Nod y cynllun yw cynyddu nifer yr athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg trwy dreialu cwrs pontio gan dargedu athrawon sydd â statws athro cymwysedig (SAC) i addysgu yn y sector cynradd, i dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn trosi i addysgu yn y sector uwchradd.

Mae hwn yn gyfle unigryw i athrawon dderbyn rhaglen o gefnogaeth er mwyn pontio'n effeithiol i addysgu mewn ysgol uwchradd.

## Strwythur darparu

Bydd y gefnogaeth yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth rhwng ysgolion a darparwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) dros gyfnod o dymor ysgol (12–14 wythnos, yn ddibynnol ar hyd y tymor ysgol). Cynhelir peilot yn ystod tymor yr haf 2020 yn cychwyn ar 20 Ebrill.

Bydd pedwar diwrnod o gefnogaeth yn cael eu darparu gan y darparwyr AGA ar y themâu canlynol.

- Rheolaeth dosbarth.
- Ymddygiad pobl ifanc yn eu harddegau.
- Lles yr athro a datblygu dycnwch.
- Rheoli amser/llwyth gwaith.
- Cynllunio gwersi – trosolwg.
- Cwricwlwm newydd – trosolwg.
- Mewnbwn ieithyddol – yn ôl angen yr unigolion.

Bydd ysgolion yn gyfrifol am ddarparu ystod o brofiadau a chefnogaeth a fydd yn darparu datblygiad proffesiynol i unigolion ar y canlynol.

- Mewnbwn pynciol.
- Marcio ac adborth.
- Cynllunio gwersi.

Bydd gan bob unigolyn fynediad i gefnogwr proffesiynol o fewn yr ysgol a fydd yn gyfrifol am gynnal deialog proffesiynol am ddatblygiad gyda'r unigolyn bob pythefnos ac i fod yn cefnogi mewn gwers unwaith bob pythefnos.

Bydd disgwyl i'r unigolion fod yn addysgu gwersi o Wythnos 2 ymlaen gydag amserlen yn cynyddu o 50% i 80% dros y tymor.

## Amserlen arfaethedig yr unigolion

| | Amser addysgu | Cefnogaeth AGA/y tu allan i'r ysgol |
|---|---|---|
| Wythnos 1 | Dim addysgu | 1 diwrnod AGA |
| Wythnos 2 | 30% – 50% o addysgu | 1 diwrnod AGA |
| Wythnos 3 | 50% o addysgu | ½ diwrnod – mewnbwn ieithyddol –- yn ôl anghenion yr unigolion |
| Wythnos 4 | 50% o addysgu | 1 diwrnod mewn ysgol uwchradd cyfagos |
| Wythnos 5 | 50% o addysgu | |
| Wythnosau 6–14 | Amser addysgu yn cynyddu'n raddol o 50% – 80% | Wythnos 6 – 1 diwrnod AGA<br>Wythnos 7 – 1 diwrnod mewn ysgol uwchradd cyfagos<br>Wythnos 8 – ½ diwrnod – mewnbwn ieithyddol – yn ôl anghenion yr unigolion<br>Wythnos 14 – ½ diwrnod AGA i ad-fyfyrio ar y cynllun |

## Gwerthuso'r cynllun

Bydd diwrnod ad-fyfyrio yn cael ei gynnal ar ddiwedd y cynllun, gyda hanner diwrnod yn cael ei neilltuo i'r cefnogwyr proffesiynol ddod ynghyd â'r darparwyr AGA i roi adborth, a hanner diwrnod yn cael ei neilltuo i'r unigolion ar lefel rhanbarthol.

## Proses recriwtio a dethol

Bydd unigolion yn gwneud cais (gweler y ffurflen gais i unigolion a'r hysbysiad preifatrwydd ar y wefan) i fod yn rhan o'r cynllun trwy Lywodraeth Cymru. Bydd dau gyfle i unigolion wneud cais.

| Cyfle | Dyddiad agor hysbyseb | Dyddiad cau derbyn ceisiadau |
|---|---|---|
| **1** | 25 Tachwedd 2019 | 13 Rhagfyr 2019 |
| **2** | 3 Ionawr 2020 | 17 Ionawr 2020 |

Yn dilyn y dyddiad cau, bydd panel i baru unigolion ag ysgolion yn cael ei gynnal cyn diwedd Ionawr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i ysgolion a fydd unigolyn(ion) wedi paru gyda'r ysgol erbyn 7 Chwefror.

Bydd ysgolion yn trefnu cyfweld â'r unigolion rhwng 24–28 Chwefror. Bydd unigolion cymwys yn cael cynnig lle ar y cynllun drwy'r ysgol a bydd yr ysgol yn parhau â'r broses recriwtio, e.e. gofyn am eirdaon, trefnu DBS a chytundeb, ayb.

Bydd unrhyw unigolion aflwyddiannus yn cael gwybod trwy Lywodraeth Cymru.

## Cyflog

Bydd pob unigolyn yn derbyn cytundeb am dymor ysgol, a chyflog ar y raddfa briodol am dymor ysgol – tua £10,000 yr un. Bydd yr unigolion yn cael eu talu gan yr ysgolion, a Llywodraeth Cymru yn di-golledi’r ysgolion.

Ni fydd gwarant swydd barhaol ar ddiwedd y rhaglen, ond bydd cyfle i unigolion ymgeisio am swyddi gweigion mewn ysgolion uwchradd.

WG39526 © Hawlfraint y Goron, 2019